# PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

## Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Ionawr 2012.

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Selwyn Williams - (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr E.G.Davies ; W.I.Hughes; Eric Jones;<br>R.Dylan Jones; Eric Roberts; P.S.Rogers<br>John Penri Williams; |
| **WRTH LAW:** | Swyddog Adran 151 a Chyfarwyddwraig Cyllid Dros Dro;<br>Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid);<br>Rheolydd Sgriwtini (BS);<br>Swyddog Cyswllt a Chymorth Sgriwtini (CT);<br>Swyddog Pwyllgor (JMA). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Cynghorwyr W.T.Hughes; Hefin Thomas; Ieuan Williams;<br>Y Comisiynydd Mick Giannasi; |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd G.O.Parry MBE– Aelod Portffolio; |

Draft

---

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni wnaed yr un datganiad o Ddiddordeb gan nac Aelod na Swyddog.

**2 COFNODION**

Derbyniwyd a chadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Rhagfyr 2011 fel rhai cywir.

**3 RHEOLAETH RISG STRATEGOL**

Cyflwynwyd adroddiad i'w ystyried gan y Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid), sef adroddiad a gyflwynwyd yn flaenorol i'r Pwyllgor Archwilio ar 13 Rhagfyr 2011.

Dywedodd y Swyddog Adran 151 a'r Gyfarwyddwraig Cyllid Dros Dro bod pob ymdrech yn cael ei gwneud i roi sylw i'r mater hwn ar sail Gorfforaethol er gwaethaf y ffaith bod Rheolaeth Risg yn ei ddyddiau cynnar yn Ynys Môn. Amlinellodd y gwaith sylweddol a oedd wedi ei wneud i roi sylw i'r mater hyd yma a chyfeiriodd at y Gweithdai a gynhaliwyd. Yn ogystal, esboniodd y Swyddog rôl y Pwyllgorau Sgriwtini, yn arbennig felly'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.

Cyfeiriodd y Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid) at yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Bwrdd Gwella ym mis Tachwedd ac at y mesurau a gymerir ar hyn o bryd i nodi risgiau i'w cynnwys yn y gofrestr ac er bod adroddiadau chwarterol yn cael sylw, gellid cynnwys unrhyw fater pwysig ar y gofrestr ar unrhyw adeg. Ychwanegodd mai'r cam nesaf fyddai cwblhau'r rhan o'r Gofrestr sy'n ymwneud â Mesurau Rheoli Ychwanegol/Triniaeth. Cyfeiriodd y swyddog hefyd at rôl y Grŵp Arweinyddiaeth Strategol a'r Pwyllgorau Sgriwtini. Daeth i ben trwy ddweud fod trafodaethau anffurfiol gyda'r rheoleiddwyr allanol yn gadarnhaol ar y cyfan er eu bod yn cwestiynu un neu ddwy o'r agweddau ar y Gofrestr ac er bod adnoddau yn brin, roedd yn gobeithio y byddai modd bwrw ymlaen yn foddhaol gyda'r mater.

Mewn ymateb i gwestiynau gan y Cynghorydd J.Penri Williams cytunwyd y byddai'n ddefnyddiol i Aelodau'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol fynychu gweithdy a oedd yn cael ei drefnu ar gyfer y Pwyllgor Archwilio.

**PENDERFYNWYD :-**

**(i) nodi'r adroddiad a sylwadau'r Swyddog;**

**(ii) croesawu'r cyfle i Aelodau o'r Pwyllgor hwn fynychu Gweithdy gyda'r Aelodau o'r Pwyllgor Archwilio er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r Gofrestr Risg;**

**4 BLAENRAGLEN WAITH AR GYFER Y PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL**

Adolygwyd Blaenraglen Waith y Pwyllgor a thrafodwyd a chytunwyd ar eitemau i'w cynnwys ar raglen y cyfarfod nesaf.

Cadarnhaodd y Swyddog Sgriwtini mai'r eitemau a fyddai'n cael eu cynnwys ar y Rhaglen ar gyfer cyfarfod 31 Ionawr 2012 oedd y Gyllideb (gan gynnwys y sylwadau a wnaed gan y 4 Pwyllgor Sgriwtini arall), Y Cynllun Busnes Corfforaethol, Y Cynllun Iaith Gymraeg a Chydraddoldebau Strategol. Mewn ymateb i bryderon yr Aelodau ynghylch nifer yr eitemau i'w hystyried, cytunwyd, ar yr amod bod yr amserlen yn caniatáu, y byddai modd gohirio rhoi sylw i'r Cynllun Iaith Gymraeg a Chydraddoldebau Strategol tan gyfarfod mis Chwefror. Ystyriwyd hefyd y byddai'n ddoeth cynnal cyfarfod briffio cyn y prif bwyllgor er mwyn cydlynu'r cwestiynau a rhoi sylw ar y cyd i sylwadau'r Pwyllgorau Sgriwtini eraill.

Nodwyd y byddai adroddiad ar Absenoldeb Salwch yn cael sylw yn y cyfarfod ym mis Mawrth.

**PENDERFYNWYD bod y Swyddog Sgriwtini yn**

**(i) paratoi crynodeb o'r sylwadau a wnaed gan y pedwar Pwyllgor Sgriwtini arall ar eu hymatebion i'r Gyllideb ddrafft ar gyfer 2012/13, fel bod modd ei gyflwyno i Aelodau'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol cyn y cyfarfod sydd wedi ei drefnu ar gyfer 2.00pm ar 31 Ionawr 2012 a**

**(ii) trefnu cyfarfod briffio cyn y prif gyfarfod.**

Draft

**CYNGHORYDD SELWYN WILLIAMS**
**CADEIRYDD**